**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Economi ac Isadeiledd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 9 Tachwedd 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| N J Davies | L S Gibbard | O G James |
| P Jones | J W Jones | M A Langstone |
| W G Lewis | P M Matthews | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithrediaeth Gyfreithiol |
| Gail Evans | Prif Reolwr Adfywio |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busne a Swyddog Monitro |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams, S M Jones, P Lloyd a/ac T M White

---

## 24 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

## 25 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017 fel cofnod cywir.

## 26 Coridor yr Afon - Cyfleoedd a Datblygiad. (Cyflwyniad)

Nododd y Cyfarwyddwr Lleoedd ei fod wedi rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf am y strategaeth ar gyfer coridor yr afon a oedd yn seiliedig ar y ddogfen a gwblhawyd gan Hyder yn 2006 a oedd yn nodi mai'r weledigaeth ar gyfer Coridor Glannau'r Tawe oedd i "ddatblygu ardal drefol fodern, deniadol a bywiog ar lannau'r afon, gan greu lle y mae pobl am fyw, gweithio ac ymweld ag e, wrth gyfalafu ar gyfraniad unigryw afon Tawe i'r Chwyldro Diwydiannol a'i ddathlu".

I gyd-fynd â’r adroddiad a ddarparwyd yn y cyfarfod diwethaf, rhoddwyd cyflwyniad gweledol gan Gail Evans, y Prif Reolwr Adfywio, a oedd yn amlinellu’r gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn, y sefyllfa bresennol a gofynion y dyfodol ar gyfer pob Ardal Strategaeth o ran y canlynol:

- **Ffordd Ddosbarthu'r Morfa** - cynllun wedi'i gwblhau. 1.7 km o hyd a llwybr defnydd a rennir 3 metr o hyd. Cyflwynwyd hwn drwy raglen gyflwyno fesul cam a chysylltu’n agos â’r sector preifat i sicrhau arian cyfatebol. Byddai’r buddion yn gwella mynediad i swyddi a gwasanaethau, yn agor y coridor i ddatblygiadau, yn lleihau tagfeydd a phroblemau ansawdd aer ar yr A4067 Heol Castell-nedd, yr Hafod ac yn gwella cysylltiadau cerdded a beicio.
- **Gwaith Copr yr Hafod-Morfa** amlinellwyd yr hanes, y cyd-destun a’r camau nesaf o ran:
    - Ailddatblygu'r Tŷ Pŵer drwy benderfyniad ariannu Menter CTL sy’n ddisgwyliedig ym mis Mai 2018, gyda dyddiad cwblhau arfaethedig yn yr hydref 2021 (yn amodol ar gyllid).
    - Uwchgynllun yr Hafod-Morfa – yn seiliedig ar Uwchgynllun Purcell 2014. Uwchgynllun ar ei newydd wedd yn cael ei ddatblygu i arwain y camau nesaf.
- **Car Cebl Nenlinell** – Mynydd Cilfái i’r Hafod – yn aros am benderfyniad gan y datblygwr o Seland Newydd.
- **Y Garreg Wen** – edrych ar gyfleoedd eraill mewn perthynas â hamdden etc, ar ochr ddwyreiniol Abertawe,
- **Yr Ardal Gopr– Safle Addis** – wedi’i gwblhau a gwersi wedi’u dysgu ar gyfer datblygiadau’r dyfodol.
- **Glanfa Pipehouse** – wedi’i werthu’n amodol i Grŵp Tai Coastal. Gallai’r safle gynnwys cymysgedd o lety sy’n diwallu anghenon tai’r ardal leol, yn ogystal â detholiad o eiddo i ddarparu tai fforddiadwy mawr eu hangen ar gyfer y gymuned leol. Byddai arolygon yn cael eu cynnal yn y misoedd i ddod i archwilio meysydd megis archaeoleg a draenio.

Roedd hi wedi gallu cadarnhau y byddai camau’n cael eu cymryd o ran y sylwadau a godwyd gan Aelodau yn y cyfarfod diwethaf ynghylch:

- Yr angen i gynnwys llwybrau cerdded/beicio mewn unrhyw gynigion yn y dyfodol.
- Ystyried ehangu bywyd gwyllt yr ardaloedd.
- Cymeradwyo'r ceir llusg arfaethedig/Ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cylch
- Ymgynghoriad â defnyddwyr glan yr afon (e.e. pysgotwyr etc).

Amlinellodd hefyd yr ystyriaethau pellach a’r camau nesaf fel a ganlyn:

**Mynediad ac Isadeiledd**

- Llwybr cerdded/beicio glan yr afon - angen cwblhau’r llwybr cerdded a beicio ar lan yr afon ar ochr orllewinol yr afon, a chreu cysylltiadau priodol â blaen yr afon o gymunedau cyfagos.

- Glannau dwyreiniol yr afon/Llwybr beicio'r dwyrain - parc treftadaeth a chyfleoedd bywyd gwyllt/bioamrywiaeth. Ystyried cyfleoedd hamdden priodol sy'n gyfyngedig o ran maint ar yr ochr ddwyreiniol.
- Darpariaeth parcio a theithio amgen i ryddhau lle a'r potensial ar gyfer datblygiad/gwelliannau o gwmpas cyrchfan Gwaith Copr yr Hafod/Morfa.

**Hamdden a Threftadaeth**

- Mynydd Cilfái - angen ymagwedd gynaliadwy at ddefnyddiau hamdden newydd, gwella mynediad a rheoli ar gyfer yr ardal ehangach. Mae ymgynghoriadau'n mynd rhagddynt â CNC a pherchennog tir preifat.
- Cyllid i sicrhau'r dyfodol a defnydd cadarnhaol o adeiladau rhestredig amlwg a nodweddion treftadaeth, ynghyd â'u cynnal (e.e. Ceisiadau CTL am arian cyfatebol)
- Anghenion isadeiledd a gwasanaeth ar gyfer datblygiad newydd, a mesurau lliniaru'r perygl o lifogydd
- Potensial cyfleoedd hamdden dŵr, cyfleoedd treftadaeth a dehongli nad oes neb wedi manteisio arnynt. Bwriedir cynnal ymgynghoriad pellach a chyfleoedd cyllid ar gyfer adeileddau pontŵn ar yr afon.

**Datblygiadau a Gwelliannau Amgylcheddol**

- Annog defnyddiau tir addas a chymysg. A allai fod unrhyw gyfleoedd datblygu ychwanegol?
- Heriau dylunio/cynllun oherwydd ffurfwedd y safleoedd. Unrhyw gyfleoedd datblygu ychwanegol?
- Unrhyw ofynion ar gyfer gwelliannau amgylcheddol megis sgrinio drwy blannu saernïol, i wella golygfeydd ac amwynder.

Gwnaeth aelodau sylwadau ar yr eitemau isod:

- Yr angen am fwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl leol drwy ddatblygiadau masnachol, diwydiant ysgafn a defnydd cymysg yn y cynllun;
- Yr angen am groesfan gyswllt arall ar draws yr afon i gerddwyr/feicwyr er mwyn cysylltu St Thomas â chanol y ddinas i osgoi pontydd afon Tawe sy'n ddryslyd a lle ceir tagfeydd yn aml.
- Adfer y pontydd gwrthbwys.
- Bioamrywiaeth ar yr ochr ddwyreiniol – e.e. parc eco/gwarchodfa natur fach, wedi'i rheoli â chydymdeimlad a'r posibilrwydd o gynnwys arbenigwyr perthnasol mewn astudiaeth o rywogaethau planhigion/bywyd gwyllt presennol.
- Mwy o waith ymchwilio i gysylltu â chytundebau A106 er mwyn sicrhau mynediad i lannau'r afon – gweithio gyda pherchnogion tir.
- Sicrhau bod llwybrau mynediad, yn enwedig llwybrau troed/beicio yn ddiogel i ddefnyddwyr.
- Llwybr mynediad o'r Morfa i faes parcio'r Garreg Wen.
- Ymgynghoriad cynhwysol â'r holl ddefnyddwyr, gan gynnwys pysgotwyr, ceidwaid, Wheelrights, defnyddwyr llwybrau ceffyl etc.
- Ymholiad ynghylch a ellid rhannu'r safle ailddatblygu tai posib yn lleiniau llai i'w prynu'n breifat e.e. perchnogion tai a allai gael eu mynediad eu hunain i bontŵn ar lan yr afon (y tir gorau).

- A fyddai’r datblygiad tai’n cynnwys tai fforddiadwy neu gymysg.
- Datblygiad/oriel addysgol i ysgolion astudio ynddynt neu eu defnyddio.
- Yr angen i ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn osgoi arwahanrwydd o ran mynediad, parcio ac isadeiledd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** :

1. Nodi'r cyflwyniad;
2. Rhannu copi o'r cyflwyniad ag aelodau'r pwyllgor;
3. Y dylai swyddogion fwrw ymlaen â’r cynlluniau ond os bydd unrhyw anawsterau’n codi yn ystod y broses, dylid rhoi gwybod i’r pwyllgor amdanynt er mwyn eu hystyried ymhellach.

**27 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Awgrymodd y Cadeirydd a’r Cyfarwyddwr Lleoedd y diwygiadau canlynol i’r cynllun gwaith:

| | | |
|---|---|---|
| 07/12/17 | Tai yng nghanol y ddinas | Lee Morgan, Phil Holmes, Huw Mowbray |
| 07/12/17 | Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer | Martin Nicholls |
| 11/01/18 | Yr Economi | Phil Holmes (a gwahoddiad i gynrychiolwyr busnes) |
| 08/02/18 | Strategaeth Trafnidiaeth y Dyfodol (agweddau allweddol, astudiaeth dichonoldeb ranbarthol) | Stuart Davies a Ben George |
| 08/02/18 | Strategaeth Coridor yr Afon | Phil Holmes a Huw Mowbray |
| I’w drefnu | Bargen Ddinesig<br>Troi Stryd y Gwynt yn barth cerddwyr | Phil Holmes<br>Lisa Wells |

**Penderfynwyd** nodi'r Cynllun Gwaith diwygiedig.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.04 pm

**Cadeirydd**